

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol,

Ysgrifennwn atoch fel cynrychiolwyr etholedig myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a dysgwyr ym mhrifysgolion Cymru mewn perthynas ag **eitem 2.11 CLA688** ar agenda'ch cyfarfod **ddydd Llun 7fed Mawrth 2016**. Credwn y dylech wrthod **Safonau'r Gymraeg (Rhif 3)** sy'n ymwneud â sefydliadau addysg a phrifysgolion a ddaw ger eich bron ddydd Llun, gan ganiatáu mwy o amser i ddatrys problemau difrifol gyda'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Rydym wedi cychwyn astudio cynnwys Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) a chredwn eu bod yn mynd yn hollol groes i amcanion y ddeddfwriaeth gynradd (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ynghyd ag amcanion polisi honedig yr is-ddeddfwriaeth; mae'r Safonau hyn hefyd yn cynrychioli cam yn ôl ar y gyfundrefn o gynlluniau iaith Gymraeg bresennol mewn sawl ffordd o bwys neilltuol.

Y Cyd-destun Polisi

Ymhellach i egwyddorion gwaelodol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, noda Memorandwm Esboniadol y Llywodraeth ar gyfer Safonau'r Gymraeg (Rhif 3)¹ mai'r amcanion polisi sy'n sail i'r is-ddeddfwriaeth hon yw:

- *“(g)wella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau*
- *annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn fwy*
- *ei gwneud yn glir i sefydliadau'r hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg*
- *sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff sydd yn yr un sectorau.”*

Ni allwn weld sut y gwireddir yr egwyddorion uchod gyda'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig fel mae'n sefyll. Awn ymlaen yn awr i amlinellu'n pryderon.

Cyfyngu Cwmpas yr Is-ddeddfwriaeth

Yn Rhagymadrodd² y Rheoliadau hyn, nodir fel a ganlyn:

“Nid yw'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn gymwys ond i'r graddau bod y gweithgaredd a gyflawnir neu'r gwasanaeth a ddarperir yn ymwneud â'r materion a restrir ym mharagraff 29 o Atodlen 1. Nid yw hyn yn cynnwys cyrsiau (gan gynnwys cyrsiau ar-lein) na deunyddiau cyrsiau.”

Ymhelaethir ar y cymal hwn yn y rhestr ym mharagraff 29 ar dudalen 41 y Rheoliadau arfaethedig. Hyd y gwelwn, canlyniad y cymalau hyn yw **cyfyngu'r** holl Safonau cyflenwi gwasanaethau i restr gul o weithgareddau yn ymwneud ag elfennau o ddarparu rhai gwasanaethau i fyfyrwyr. Ymddengys fod hyn wedi'i wneud heb unrhyw drafodaeth gyda'r

¹ <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld10585-em/sub-ld10585-em-w.pdf> (tud. 5)

² <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld10585/sub-ld10585-w.pdf> (tud. 3)

cyhoedd na myfyrwyr ac fe â hyn yn **groes** i lythyren ac ysbryd yr **Ymchwiliad Safonau** gwreiddiol gan Gomisiynydd y Gymraeg (yn seiliedig ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 Drafft), proses hirfaith y mae cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth hon i'ch Pwyllgor yn benllanw iddi. Fel mae'n sefyll felly, bydd yr holl Safonau cyflenwi gwasanaethau hanfodol hyn ond yn berthnasol:

“i'r graddau y mae'r gweithgaredd a gyflawnir neu'r gwasanaeth a ddarperir yn ymwneud â'r canlynol—

- (a) derbyn a dethol myfyrwyr;*
- (b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff;*
- (c) lles myfyrwyr;*
- (ch) cwynion;*
- (d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr;*
- (dd) gwasanaeth gyrfaoedd;*
- (e) gwefannau rhith-ddysgu a phorth dysgu;*
- (f) llyfrgelloedd;*
- (ff) seremonïau graddio a gwobrwyo;*
- (g) asesu neu arholi myfyriwr;*
- (ng) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol;*
- (h) darlithoedd cyhoeddus;*
- (i) cyfleoedd dysgu(1);*
- (j) llety.”*

Gan gofio fod prifysgolion a sefydliadau addysg yn gyrrff mawr o bwys cenedlaethol i'n gwlad, mae'n annerbyniol lleihau'n sylweddol ar y dylestwyddau ieithyddol sydd arnynt eisoes dan y gyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg. Dyna'n union fyddai canlyniad cymeradwyo'r is-ddeddfwriaeth ffaeledig hon.

Er enghraifft, pe bai aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â phrifysgol yng Nghymru yn y Gymraeg - yn ymwneud ag unrhyw fater ar hyn o bryd - byddai darpariaeth yng nghynllun iaith Gymraeg y brifysgol honno i sicrhau bod yn rhaid i'r sefydliad ddelio â'r ohebiaeth ac ymateb i'r ohebiaeth yn y Gymraeg. Ymddengys nad dyna fyddai'r sefyllfa pe bai Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) yn derbyn sêl eich bendith gyda'r cymal hwn sy'n newid sail yr holl ddeddfwriaeth.

Mater arall o bryder mawr yng ngoleuni cyfyngu'r Safonau i'r rhestr uchod yw rhywbeth mor sylfaenol ag arwyddion. Eto, o'n darlleniad ni o'r cymal anffodus hwn, ni fyddai'n orfodol i brifysgol godi pob arwydd ar gampws prifysgol yn ddwyieithog fel sy'n aferol ers blynyddoedd.

Yn wir, wrth i brifysgolion ehangu ei swyddogaethau y tu hwnt i addysg - i feysydd y celfyddydau ac arlwyo (Pontio ym Mangor a Chanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth) er enghraifft - mae'n rhaid cofio mai elusennau er budd y cyhoedd yw prifysgolion, nid cwmnïau masnachol ac y dylent barchu iaith a diwylliant Cymru. Mae paragraff 29 ar dudalen 41 Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) yn ymarferol yn eithrio Prifysgol Bangor, er enghraifft, o'r disgwyl i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yng Nghanolfan Gelfyddydol newydd Pontio. Ni fyddai hyn yn dderbyniol i'r

myfyrwyr yr ydym ni'n eu cynrychioli - nac i'r cyhoedd ychwaith, ac o'r herwydd mae'n rhaid eu gwrthod ar eu ffurf bresennol.

Amwysedd o ran y termau a ddefnyddir

“Mewnrwyd”

Yn ei hadroddiad Ymchwiliad Safonau ar gyfer prifysgolion a sefydliadau addysg³, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru geisio eglurhad o'r term “Mewnrwyd myfyrwr”. Wrth i gyfathrebu rhwng sefydliadau addysg a myfyrwyr fynd yn fwyfwy digidol, mae'n hanfodol bod modd i fyfyrwyr ymwneud yn Gymraeg â'u sefydliadau. Serch hynny, nid yw'r Rheoliadau a gyflwynir ger eich bron fel Pwyllgor yn cynnig eglurhad o safbwynt diffiniad “Mewnrwyd”. Yn hytrach, cyfeirir at “rith-amgylchfeydd dysgu a phorth dysgu” sydd yn systemau gwahanol yn delio â chynnwys cyrsiau, yn wahanol i “Fewnrwyd Myfyrwr”. Fel mae Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) yn sefyll ar hyn o bryd, felly, bydd gan Staff prifysgolion hawl i Fewnrwydi Cymraeg, ond nid y myfyrwyr y mae'r prifysgolion hyn yn bodoli i'w gwasanaethu. Yn ogystal, mae'n aneglur ai “Mewnrwyd” sydd gan y Llywodraeth mewn golwg gyda'r Safonau sy'n cyfeirio at “Rith amgylchedd” a “Porth” dysgu. Unwaith eto, mae dryswch gormodol ynghlwm â'r Rheoliadau drafft hyn, a'r unig opsiwn yw i chi fel Pwyllgor eu gwrthod gan ganiatáu rhagor o amser i sicrhau is-ddeddfwriaeth gadarn o ran ystyr.

“cymorth myfyrwr” / cyfarfodydd llesiant

Pryderwn fod y Safonau wedi'u gwahau a'u newid yn ormodol i'r hyn a oedd yn sail i Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 (Drafft) mewn cysylltiad â chyfarfodydd yn ymwneud â llesiant myfyrwr. Poenwn fod y diffiniad a roddir o “gymorth myfyrwr” ym mharagraff 36 ar dudalen 45 yn annigonol ac yn aneglur. Er enghraifft, a fyddai “cwnsela” yn cynnwys diogelu'r hawl i drafod trafferthion teuluol a phersonol yn y Gymraeg gyda thiwtor personol, a materion bugeiliol o'r fath? Yn ogystal, gan gofio fod natur gwaith prifysgolion yn wahanol iawn i gyrff megis cynghorau sir, pryderwn nad yw'r geiriad “Os byddwch yn gwahodd P i gyfarfod...” yn llawn gydnabod natur a gwaith prifysgolion, ac yn benodol y berthynas rhwng myfyrwyr a'r corff. Nid yw'n eglur a ellir sicrhau cyfarfodydd personol yn y Gymraeg o dan y Safonau hyn pe bai *myfyriwr* yn *gwneud cais* i gwrdd â chynghorydd gyrfu neu diwtor personol, er enghraifft.

“y cyhoedd”

Ar ddechrau'r Rheoliadau, ceir cadarnhad fod unrhyw gyfeiriadau at “y cyhoedd” yn cynnwys “myfyrwr”. Serch hynny, mae'r Rheoliadau eu hunain yn gwahaniaethu rhwng y “cyhoedd” a “myfyrwr” sydd yn peri dryswch o safbwynt cyfreithiol.

³[http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20150229%20AD%20C%20Cyff%20Cyhoeddus%20Cyffredinol%20\(1\).pdf](http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20150229%20AD%20C%20Cyff%20Cyhoeddus%20Cyffredinol%20(1).pdf) (tud. 81)

“sylwadau” ar waith a gyfieithwyd

Rydym yn pryderu hefyd am yr esboniad i Safonau 90 a 90A (paragraff 61 ar dudalen 52) yn ymwneud ag asesu ac arholi gwaith myfyrwyr gyda chymorth gwasanaethau cyfieithu a'r awgrym na fyddai'r corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy “beidio â chyfieithu unrhyw sylwadau ar y gwaith a gyfieithwyd”. Mae'n anghredadwy bod y Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol i fyfyrwyr gyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg, ond caniatáu i brifysgolion gyfieithu'r gwaith cyn ei asesu a hynny fel mater o drefn - yn groes i ganllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - a chyflwyno adborth ysgrifenedig ar y gwaith hwnnw yn Saesneg. Os yw'n dealltwriaeth ni o'r term “sylwadau” yn gywir, dyma enghraifft bellach o'r is-ddeddfwriaeth yn mynd yn gwbl groes i egwyddor y ddeddfwriaeth gynradd y “dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny” - ac am hynny mae angen mwy o amser i ailystyried y modd y mae'r is-ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ac effaith cymalau fel hyn.

Gwahaniaethu rhwng myfyrwyr a staff sefydliadau addysg

Credwn ymhellach bod rhaid i'r Pwyllgor wrthod Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) gan mai canlyniad eu cymeradwyo fyddai gadael staff prifysgolion a'r sefydliadau addysg â'r gallu i fyw a gweithio yn y Gymraeg o fewn y sefydliad, ond eithrio'r myfyrwyr y mae'r sefydliadau hyn yma i'w gwasanaethu o'r un lefel o wasanaeth. Â hyn nid yn unig yn groes i'r bwriad polisi o greu cysondeb o fewn sectorau, ond mae hefyd yn creu anghysondeb cynyddol o fewn **sefydliadau unigol** yn y sector - sydd yn annerbyniol.

Bydd gofyn i'r prifysgolion a sefydliadau addysg (drwy Safonau 136-139;126-131 a 125) sicrhau'r canlynol i'w staff : **ymwybyddiaeth iaith, gwersi Cymraeg a rhyngwynebau cyfrifiadurol Cymraeg**. Fodd bynnag, ni fydd gan fyfyrwyr yr un mynediad at yr iaith yn ein prifysgolion a sefydliadau addysg - na'r gallu i'w defnyddio o ddydd i ddydd yn eu prifysgolion a cholegau. Mae'n rhaid caniatáu amser i ailystyried i sicrhau bod egwyddorion sylfaenol y ddeddfwriaeth gynradd a'r is-ddeddfwriaeth yn cael eu bodloni a'u gwireddu.

Diddymu conglfeini cyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg Deddf 1993

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diddymu'r disgwyliad y dylai fod gan bob myfyriwr fynediad at lety cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, yng nghynllun iaith presennol Prifysgol Caerdydd, datgenir fel a ganlyn:

“Cynigir cyfle i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i wneud cais am lety a neilltuwyd ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn dwy neuadd breswyl, Llys Senghenydd a Gogledd Talybont.” (Cymal 7.4, tudalen 11)

Yng nghynllun iaith Prifysgol Aberystwyth, dywedir:

“Caiff myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ynghyd â’r rheiny sy’n dysgu’r Gymraeg, gyfle i fyw mewn llety Cymraeg penodedig sydd wedi’i neilltuo ar eu cyfer.” (Cymal 4.21)

Pwysleisiwyd hyn gan Gomisiynydd y Gymraeg, mewn llythyr at Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth ar 3 Mehefin 2015⁴:

“Mae eich cynllun iaith Gymraeg yn gosod ymrwymiad penodol ar y sefydliad i ddarparu llety penodedig ar gyfer myfyrwyr sy’n siaradwyr Cymraeg.”

Derbynnir bellach bod darparu llety penodedig Cymraeg i fyfyrwyr yn hanfodol, ac fe ddylai’r Safonau adlewyrchu hyn. Serch hynny, bydd y Rheoliadau hyn, fel maent yn sefyll, yn mynd yn groes i Gynlluniau Iaith y Prifysgolion hyn, ac yn dileu’r disgwyliad hwnnw. Waeth pa mor wan mae geiriad a gweithrediad cymylau o’r fath wedi bod dros y blynnyddoedd, os yw amcanion polisi’r ddeddfwriaeth gynradd ac amcanion penodol y Safonau am gael eu gwireddu, byddem yn disgwyl mai gwella gwasanaethau drwy gryfhau’r gweithredu a dod â chysondeb o fewn y sector a wneir ar faterion o’r pwys mwyaf i fyfyrwyr Cymraeg a dysgwyr - megis llety. Fodd bynnag, hepgor a diddymu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a wna’r is-ddeddfwriaeth hon.

Rydym wedi’n siomi a’n synnu’n fawr hefyd nad yw’r Safonau hyn yn cyffwrdd â phrif swyddogaeth prifysgolion a sefydliadau’r sector addysg - sef addysgu myfyrwyr. Yn ei hadroddiad Ymchwiliad Safonau ar gyfer y sector hefyd mae’r Comisiynydd yn dod i’r casgliad y dylai’r Llywodraeth sicrhau pennu Safonau mewn perthynas â mesur y galw am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Ofnwn fod defnyddwyr craidd gwasanaethau’r prifysgolion ac egwyddorion sylfaenol honedig y ddeddfwriaeth ar goll o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 3).

Casgliad

Yn gryno, mae’r is-ddeddfwriaeth hon:

- Yn mynd yn groes i egwyddorion gwaelodol y ddeddfwriaeth gynradd;
- Yn peri dryswch o ran y termau a ddefnyddir ac o safbwynt drafftio gyda rhai cymalau problemus tu hwnt;
- Yn cyfyngu ar wasanaethau Cymraeg yn hytrach nag yn ehangu arnynt drwy diddymu conglfeini cyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg Deddf 1993; ac
- Yn newid holl sail Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg a seiliwyd ar Reoliadau’r Gymraeg (Rhif 1) heb ymgynghori na thrafodaeth lawn â’r rhanddeiliaid perthnasol.

Byddai cymeradwyo Safonau’r Gymraeg (Rhif 3) yn eu ffurf bresennol yn creu dryswch a chanlyniadau andwyol o ran cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn ein prifysgolion a sefydliadau

⁴<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20150603%20LL%20C%20Ymateb%20i%20AMB%20Prifysgol%20Aberystwyth%202013-14.pdf>

addysg. Fel yr ydym wedi dangos, ni fyddai eu cymeradwyo yn gwella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ac yn sicr ni fyddai'n cynyddu defnydd gwasanaethau Cymraeg - gan y byddai llai ar gael. Ni fyddai ychwaith yn cyflawni'r nod o wella cysondeb o fewn y sector gan y bydd mwy o anghysondeb o fewn *sefydliadau unigol*, heb sôn am ddal arfer da o fewn y sector ac adeiladu arno yn ôl y bwriad.

Mae'n bosibl iawn mai anfwriadol yw llawer o'r gwendidau difrifol hyn. Beth bynnag am hynny, credwn mai'r peth cyfrifol a rhesymol i Aelodau'r Pwyllgor ei wneud yw gwrthod Safonau'r Gymraeg (Rhif 3), gan ganiatáu mwy o amser i drafod goblygiadau'r pwyntiau uchod ac i sicrhau is-ddeddfwriaeth gadarn o ran ystyr, sy'n dderbyniol i'r sefydliadau a'r defnyddwyr ac sy'n unol ag egwyddorion gwaelodol y ddeddfwriaeth gynradd ynghyd ag amcanion polisi'r is-ddeddfwriaeth hon.

Yr eiddoch yn gywir,

Steffan Bryn, Swyddog y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Hanna Medi Merrigan, Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth

Ifan James, Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor

Fflur Elin, Llywydd Undeb Myfyrwyr Bangor

Lewys Arôn, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

Lauren Evans, Swyddog yr Iaith Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

Siôn Davies, Swyddog yr Iaith Gymraeg Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru

Daniel Rowbotham, Swyddog Materion Cymraeg, Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant

cc: Suzy Davies AC, Simon Thomas AC, Aled Roberts AC, Prif Weinidog Cymru, Comisiynydd y Gymraeg